

# Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru

# Rheolwr Archwilio

## Pecyn Recriwtio

# Croeso gan y Pennaeth Gwasanaeth



DAVID COOIL
PENNAETH GWASANAETH ACGCC

Yn yr ACGCC rydym yn helpu i greu rhwydwaith ffyrdd sy'n cysylltu pobl a lleoedd mewn modd mwy diogel,  a mwy dibynadwy.

Rydym yn gweithio ar brosiectau ar draws Gogledd a Chanolbarth Cymru sy'n mynd i'r afael â rhai o heriau mwyaf tyngedfennol y wlad. O seilwaith cymhleth, cynyddu anghenion trafnidiaeth, a newid yn yr hinsawdd – rydyn ni'n cyfuno arloesi, arbenigedd a thechnoleg i wneud Gogledd a Chanolbarth Cymru yn lle gwell i fyw, gweithio ac ymweld ag ef.

Gallwch gyfrannu at waith fydd yn cael effaith gadarnhaol barhaol ar eich cymuned leol gyda sefydliad lle mae amrywiaeth, tegwch a chynhwysiant yn werthoedd a rennir. Rydym wedi ymrwymo i feithrin amgylchedd gwaith sy'n gefnogol, yn barchus ac yn gynhwysol, gyda chyfleoedd gwych ar gyfer twf.

Beth am roi cynnig arni? Byddem yn hapus iawn i ystyried eich cais i ymuno â'n tîm medrus, brwdfrydig a chyfeillgar.



# Ble rydym wedi'n lleoli

## Dros 250 o weithwyr ar draws Gogledd a Chanolbarth Cymru.

- **Aberaeron, Ceredigion**
- **Bangor, Gwynedd**
- **Conwy**
- **Dolgellau, Gwynedd**
- **Helygain, Wrecsam**
- **Llandrindod, Powys**
- **Drenewydd, Powys**



# Teitl y swydd: Rheolwr Archwilio



Ydych chi’n mwynhau her ac yn hoffi amrywiaeth?  Os felly, yna efallai mai’r swydd hon yw’r peth i chi.  Rydym yn chwilio am Rheolwr Archwilio i ymuno â thîm cyffrous sy’n tyfu.

**Cyflog:** PS5 (SCP 37-39) £45,411 - £47,420

**Cyfnod:** Parhaol

**Lleoliad:** **Gweithio Hybrid** o un or swyddfeydd isod:

Bangor/Helygain/Llandrindod

**Dyddiad cau:** 22/02/2024

**Ffurflenni cais a manylion pellach ar gael trwy wefan Cyngor Gwynedd www.gwynedd.llyw.cymru neu drwy ffonio 01286 679076.**

**Ymgeisiwch**

## Pwrpas y swydd

Rheoli tîm o tua 20 o staff mewnol a chadwyn gyflenwi ategol ehangach sy’n darparu archwiliadau diogelwch ac archwiliadau manwl o asedau Priffyrdd, gan gynnwys palmentydd, draenio, systemau atal cerbydau ac asedau geodechnegol ar y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol ledled Gogledd a Chanolbarth Cymru.

Bydd Gan weithio’n agos gyda Llywodraeth Cymru a Thîm Gweithredol Rhwydwaith NMWTRA, bydd deiliad y swydd yn helpu NMWTRA i gyflawni ei rwymedigaethau statudol a chydymffurfio â’r holl safonau perthnasol, gan gynnwys DMRB a WGTRMM (Llawlyfr Cynnal a Chadw Cefnffyrdd Llywodraeth Cymru). Wrth wneud hynny, bydd deiliad y swydd yn ceisio datblygu arferion gweithio arloesol ac effeithlon.



# Cyfrifoldebau

- Rheoli gofynion Gwasanaeth Archwilio’r Asiantaeth yng Ngogledd a Chanolbarth Cymru i gyflawni dyletswyddau dan *Adran 41 Dyletswydd i gynnal a chadw priffyrdd y gellir eu cynnal ar gost y cyhoedd* ac *Adran 58 Rhoi amddiffyniad arbennig ar waith yn erbyn awdurdod priffyrdd am iawndal am beidio â thrwsio priffordd* Deddf Priffyrdd 1980.
- Rheoli’r gwaith o roi gofynion *Endid Archwilio Rheoliad 13* ar waith mewn perthynas ag asedau priffyrdd o dan Reoliadau Diogelwch Twneli Ffyrdd 2007 (fel y’u diwygiwyd 2009).
- Rheoli’r gwaith o ddarparu Gwasanaeth Archwilio Asedau Priffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru yn unol â gofynion deddfwriaethol, prosesau Iechyd a Diogelwch yr Asiantaeth ac fel cleient dan D2.2 Pennod 8 Llawlyfr Arwyddion Traffig Rhan 1.
- Cyfrannu at ddatblygu strategaethau Llywodraeth Cymru, WGTRMM, Systemau Rheoli Busnes yr Asiantaeth a sicrhau bod Gwasanaeth Archwilio’r Asiantaeth yn perfformio, ac y gellir ei archwilio, yn unol â gweithdrefnau’r Systemau Rheoli Busnes.
- Rheoli’r gwaith o roi swyddogaethau archwilio a rheoli data ar waith a’u darparu gan ddefnyddio Systemau Rheoli Asedau Asiantaethau Cefnffyrdd Llywodraeth Cymru, gan roi cyngor ar gyflwr asedau a rhaglenni gwaith i sicrhau y cyflawnir gwerth am arian.
- Rheoli’r Gwasanaeth Archwilio amlddisgyblaethol mewnol a darparwyr allanol wrth ddarparu Archwiliad Diogelwch, Manwl ac Arbenigol o’r ased priffyrdd ac asedau cysylltiedig eraill i fodloni gofynion Llawlyfr Cynnal a Chadw Cefnffyrdd Llywodraeth Cymru a’r Llawlyfr Dylunio ar gyfer Ffyrdd a Phontydd.
- Arwain y gwaith o ddatblygu a rhoi Llawlyfrau Archwilio, gweithdrefnau hyfforddi ac arcwilio cynhwysfawr ar waith ar ran yr Asiantaeth.
- Rheoli’r gwaith o ddarparu’r holl gofnodion archwilio a chynnal a chadw gan yr Asiantaeth i systemau data Llywodraeth Cymru yn gywir ac yn amserol.




## Dylech gyfeirio at y meini prawf penodol i'r swydd hon yn eich ffurflen gais.

## Meini prawf penodol i’r swydd

Yr ydym yn chwilio am berson sydd â sgiliau rhyngbersonol da, yn gallu gweithio heb lawer o oruchwyliaeth, yn gallu cymell eich hun ac fod yn frwdfrydig ac yn ymroddedig, yn ogystal a gallu gweithio yn ddiogel o dan bwysau. Bydd rhaid i’r person gallu gweithio a chyfrannu’n effeithiol fel aelod o dîm amlddisgyblaethol, dangos blaengaredd personol a’r gallu i ddelio â phobl ar bob lefel mewn ffordd gwrtais a phroffesiynol.

## Cymwysterau a hyfforddiant perthnasol

Chwylio am berson sydd a radd mewn Peirianneg Sifil ynghyd â phrofiad perthnasol, neu radd neu gymhwyster cyfatebol mewn pwnc perthnasol ynghyd â phrofiad perthnasol health.

## Profiad perthnasol

Profiad o archwilio neu gynnal a chadw priffyrdd, defnyddio systemau rheoli data yn ymarferol, profiad o rheoli tîm, ac profiad o ddefnyddio amrywiaeth o galedwedd TG a rhaglenni meddalwedd.

## Sgiliau a gwybodaeth arbenigol

Sgiliau a gwybodaeth am ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch a rhoi technegau rheoli risg ar waith, Sgiliau trefnu amlwg, y gallu i weithio heb fawr ddim goruchwyliaeth a'r gallu i flaenoriaethu llwythi gwaith sy'n cystadlu â'i gilydd. Sgiliau cyfathrebu datblygedig iawn, ar lafar ac yn ysgrifenedig, gallu dangos sgiliau rhyngbersonol o safon uchel ac ysgogi tîm, yn ogystal â gallu rheoli newid a bwrw ymlaen â datblygiadau newydd yn llwyddiannus.

## Gofynion ieithyddol

Mae’r gallu i siarad Saesneg yn hanfodol ar gyfer y rôl hon.

# Gweithio i Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru

Mae ACGCC yn lle cyffrous i weithio. Mae gennym bolisïau blaengar a rydym wedi ymrwymo i hyfforddi a

- 26 dyddiau o wyliau blynyddol y flwyddyn.
- 8.5 diwrnod o wyliau cyhoeddus a statudol.
- Gweithio'n hybrid o leiaf 2 ddiwrnod yn y swyddfa.
- Oriau gweithio hyblyg.

- Cyflog cynyddol.
- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol Ceir rhagor o wybodaeth ar wefan Cronfa Bensiwn Gwynedd.

- Cyfle i weithio mewn lleoliadau prydferth ar draws Gogledd a Chanolbarth Cymru gan gynnwys 1 parc cenedlaethol, 50 gwarchodfa natur a 1,680 milltir o arfordir trawiadol

- Cynlluniau cymorth i brynu car ac i feicio i'r gwaith
  Arbediadau siopa bwyd, gwyliau, mynd allan i fwyta, DIY, offer trydanol, yswiriant, moduro, a llawer mwy!

- Ystod eang o gyfleoedd hyfforddi a datblygu mewnol ac allanol.
- Diwrnod yr wythnos i gwblhau gradd prifysgol.
- Cyfraniad tuag at aelodaeth o gyrff proffesiynol sy'n berthnasol i'r gwaith

- Gwasanaeth Cwnsela MEDRA - gwasanaeth cwnsela cyfrinachol am ddim i staff.
- Absenoldeb hael ar gyfer mamolaeth, tadolaeth a mabwysiadu.